**<u>Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD</u>** **<u>EDC 01-02(p2)</u>**

**Dyddiad:** **10 Ionawr 2001**
**Amser:** **14:00 tan 17:30**
**Lle:** **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **AMRYWIADAU CYLLIDOL A CHYMHORTHION GWEITHREDU – Y CAMAU A GYMERWYD HYD YN HYN**

## Y Mater o dan Sylw

1. Mae’r papur hwn yn gwireddu’r ymrwymiad a roddais yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 28 Tachwedd i fanylu ar yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad cynnydd a gyflwynais gerbron y Pwyllgor ar 31 Hydref ac yn y Cynllun Gweithredu a ddarparwyd ar 28 Tachwedd (copïau o’r ddau yn yr atodiadau i’r fersiwn Saesneg). Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r llwyddiannau hyd yn hyn, y meysydd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu peidio mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd, a’r rhai yr ydym yn dal i fynd ar eu hôl. Byddaf yn darparu adroddiadau pellach am y materion hynny wrth iddynt ddatblygu.

## Y Fethodoleg

2. Fel y nodir ym mharagraffau 3 a 4 o Atodiad 1 i’r fersiwn Saesneg, gall Cymhorthion Gweithredu fod yn gymhellion treth neu’n gymorth a ddarperir trwy ddulliau eraill. Gall cymhellion treth sy’n amrywio o’r naill ranbarth i’r llall fod yn Gymhorthion Gweithredu neu’n fathau eraill o Gymorth Gwladwriaethol.

3. Mae Cymhorthion Gweithredu yn dod o dan Ganllawiau’r CE ar Gymorth Gwladwriaethol Rhanbarthol, fel y’u diffinnir gan Gyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y GE. Ac eithrio Ardrethi Busnes, rhaid i gymhellion treth gael eu cymeradwyo gan Ganghellor y Trysorlys. Felly, dichon y bydd yn rhaid goresgyn un neu ddau rwystr ar gyfer unrhyw gynnig penodol.

4. Yn gyffredinol, aed ati i ddelio â materion o’r fath trwy ddelio â’r Trysorlys ar y materion treth sy’n rhan o’i gylch gwaith gan fod angen darbwyllo’r Trysorlys am yr angen am gymhelliant treth sy’n amrywio o’r naill ranbarth i’r llall, a phriodoldeb y cymhelliant hwnnw, cyn bod unrhyw bwynt cysylltu â’r Comisiwn yn ei gylch. Unwaith y câi ei ddarbwyllo, y Trysorlys fyddai’n gyfrifol am gael y caniatâd y mae ei angen oddi wrth y Comisiwn ar gyfer Cymhorthion Gwladwriaethol. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw cymhorthion gweithredu sydd heb fod yn gymhellion treth, neu’r rhieni sy’n ymwneud ag ardrethi busnes, a’n cyfrifoldeb ninnau hefyd yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r rheolau ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol. Mae’n bosibl y byddai angen cynnal trafodaethau â Chyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y CE hefyd.

## Cyfyngiadau sy’n cael eu gosod gan y Trysorlys

5. Mae’n bosibl y bydd aelodau’r Pwyllgor yn cofio’r drafodaeth gyda Daniel Storey, un o swyddogion y Trysorlys, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2000. Yn ystod y drafodaeth honno, defnyddiwyd dwy brif ddadl yn erbyn cymhellion treth sy’n amrywio o’r naill ranbarth i’r llall. Yr oedd y ddadl gyntaf yn ymwneud â "gollwng", y posibilrwydd y gallai cwmnïau sy’n defnyddio cyfeiriadau er hwylustod yn yr ardal Amcan 1 gael credydau treth heb gynnal unrhyw weithgarwch ychwanegol yn yr ardal honno. Yr oedd yr ail ddadl yn ymwneud â "phwysau marw", y posibilrwydd na fyddai cymhelliant treth ond yn ariannu gweithgarwch a fyddai wedi digwydd beth bynnag. Mae’r ddau bosibilrwydd yn peryglu effeithiolrwydd unrhyw gymhelliant treth, gan godi costau heb wireddu amcanion polisi. Rhaid mynd i’r afael â’r ddau anhawster hyn mewn unrhyw gynnig.

**Cyfyngiadau a osodir gan y Gyfarwyddiaeth Gystadleuaeth**

6. Ymddengys fod y canllawiau ar Gymhorthion Gwladwriaethol yn caniatáu Cymhorthion Gweithredu mewn ardaloedd sy’n cael eu cynnwys yn y rhan-ddirymiad yn Erthygl 87(3) o’r Cytundeb (ardaloedd Amcan 1). Nodir nifer o reolau yn y canllawiau, a’r rheol bwysicaf a mwyaf pendant yw bod yn rhaid i unrhyw gymorth gweithredu fod yn gymesur â’r broblem y mae’n ceisio’i datrys. Hynny yw, rhaid ei dargedu’n agos ar ffurf benodol ar ymddygiad economaidd, a rhaid iddo fedru newid yr ymddygiad hwnnw. Ni fyddai gostyngiad cyffredinol mewn costau busnes, naill ai trwy ostyngiad treth rhanbarthol neu drwy ddulliau eraill, yn cael ei ganiatáu. Rhesymeg y Comisiwn yn hyn o beth yw y byddai mesur cyffredinol o’r fath yn wrth-gystadleuol; gan arwain at y math o ddiffynnaeth y sefydlwyd y Farchnad Sengl yn benodol i’w dileu. Mae ganddo hefyd yr un pryderon am "bwysau marw" – pe bai cwmnïau’n gallu cael cymhelliant treth heb newid eu hymddygiad, byddai’r costau’n fwy o lawer nag unrhyw fudd posibl.

7. Nid yw pob math o gymhellion busnes y mae gennym ddiddordeb yn eu cyflwyno yn cael eu diffinio fel Cymhorthion Gweithredu. Mae yna achlysuron lle y mae’n haws i’r cymhellion sy’n cael eu hystyried gael cymeradwyaeth y CE o dan ran arall o’r rheolau ar gyfer Cymhorthion Gwladwriaethol.

**Yr angen am gymhellion yn y Gorllewin a’r Cymoedd**

8. Mae’r dadansoddiad yn Nogfen Raglennu Sengl Amcan 1, sydd wedi’i gadarnhau wedi hynny yn "Cymru ar ei Hennill", yn dangos bod angen ysgogi buddsoddiad ym mhob maes: adeiladau; peiriannau ac offer; eiddo deallusol; ymchwil a datblygu; a sgiliau, ac annog menter ac entrepreneuriaeth. Nodwyd y meysydd hyn yn adroddiad PricewaterhouseCoopers (PWC) hefyd. Yn yr adroddiad hwnnw, gwnaed yr argymhelliad pwysig na ddylid ystyried cymhellion treth ar wahân i ffurfiau eraill o gymhellion a oedd yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad. Gan hynny, argymhellodd yr adroddiad fod newidiadau’n cael eu gwneud i’n rhaglenni cymorth ariannol i fusnesau, yn ogystal ag awgrymu meysydd lle y gallai cymhellion treth fod yn effeithiol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio symud ymlaen ar y ddau fater.

Adeiladau

9. Yn adroddiad PWC, nodwyd pedwar math o gymhelliant ar gyfer adeiladau:

- Gellid gostwng Ardrethi Busnes;
- Gellid gostwng neu ddileu'r Dreth Stamp ar drafodion tir;
- Gellid gwella Lwfansau Cyfalaf;
- Gallai Awdurdod Datblygu Cymru gynnig gostyngiadau rhent neu gyfnodau di-rent mewn adeiladau sy'n eiddo iddo.

10. Llwyddwyd i symud ymlaen yn y maes hwn:

- Ar 24 Hydref, cafodd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig ei wella gan Lywodraeth y Cynulliad.
- Bydd y broses ymgynghori ar Gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn dechrau ym mis Mawrth 2002.
- O 30 Tachwedd ymlaen, cafodd 363 o Ranbarthau Etholiadol yng Nghymru, sy'n cynnwys 47 y cant o'r boblogaeth, eu heithrio rhag talu Teth Stamp ar drafodion tir sy'n werth llai na £150,000. Yn ei Adroddiad cyn y Gyllideb, ymrwymodd y Canghellor i fynd ar drywydd gwelliannau pellach i'r eithriadau rhag talu'r Dreth Stamp yn yr ardaloedd hyn gyda Chyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y CE.
- Ymrwymodd y Canghellor hefyd i fynd ar drywydd y posibilrwydd o gymhellion treth ar gyfer Cwmnïau Adfywio Trefol, fel yr un a fydd, o bosibl, yn cael ei sefydlu yng Nghasnewydd ar ôl colli swyddi yn Corus. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn bwydo awgrymiadau i mewn i'r gwaith hwn.

11. I raddau helaeth, mae rhyddhad ardrethi yn cael ei ariannu o'r gronfa ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu bod llai o ardrethi i'w hailddosbarthu i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Y Trysorlys sy'n gwneud iawn am y diffyg ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw, fel bod yr un faint o arian ar gael ar gyfer llywodraeth leol yn gyffredinol. Er hynny, o dan y rheolau cyllido, mae'r Trysorlys yn cadw'r hawl i ostwng cyllideb aseiniedig y Cynulliad pe bai'n cyflwyno polisïau a fyddai'n golygu bod llai o incwm yn cael ei godi trwy ardrethi (yn ychwanegol at benderfyniadau tebyg a wneir yn Lloegr) ac a fyddai wedyn yn golygu bod mwy o alw am arian o'r Trysorlys. Mae hyn yn golygu mai'r Cynulliad, yn hytrach na'r Trysorlys, fyddai, o bosibl, yn gorfod talu costau unrhyw ryddhad a roddir.

12. Ar y llaw arall, nid fydd Cyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y CE yn caniatáu i Awdurdod Datblygu Cymru roi'r mathau o gymorth rhent a gynigiwyd gan PWC. Er hynny, caiff yr Awdurdod ddarparu rhai mathau o gymorth/ostyngiad rhent, ond dim ond yn unol â'r hyn sydd ar gael ar y farchnad fasnachol, ac mae yn gwneud hynny. Er enghraifft, gallai'r Awdurdod ystyried cynnig cyfnod di-rent o 6 mis ar gyfer eiddo pe bai'r math hwnnw o ddêl yn cael ei

gynnig gan landlord masnachol.

Peiriannau, offer ac eiddo deallusol

13. Gan amlaf, cefnogir buddsoddiadau o’r math hwn gan grantiau a benthyciadau, ac weithiau gan fuddsoddiadau yn ecwiti’r busnes o dan sylw. Yn adroddiad PWC, fe’n hanogwyd i ad-drefnu’r ffordd yr ydym yn darparu cymorth ariannol yn y maes hwn. Sefydlwyd Grp Gorchwyl a Gorffen ar Fenter i ystyried cymorth Grant Menter, ac yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, cyflwynais adroddiad y Grp a chyfeirio at y camau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd o ganlyniad i’r adroddiad. Bydd y dull newydd o weithredu ar sail "dewislen", fel y’i hargymhellwyd gan PWC, ar waith o fis Ebrill ymlaen.

14. Yn ogystal ag ad-drefnu rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad, mae Cyllid Cymru wedi cyflwyno cynllun rhyddhad cyfraddau llog i gydredeg â benthyciadau a ddarperir i gwmnïau priodol o’r cyllid a sicrhawyd ar gyfer eu prosiect Amcan 1.

Annog Entrepreneuriaeth

15. Bwriedir darparu mwy o gymorth i fusnesau trwy’r Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau (CITC), a fydd yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn dreth nesaf. Bwriad y credyd treth hwn yw annog buddsoddiad ac ysgogi entrepreneuriaeth mewn cymunedau difreintiedig. Mae manylion y cynllun yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae swyddogion y Cynulliad yn ymgynghori â Chyllid y Wlad a’r Adran Diwydiant a Masnach am y manylion hyn. Yr wyf wedi sefydlu Grp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio’r Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau i sefydlu corff i ddarparu cymorth arbennig i’r economi gymdeithasol ledled Cymru. Er hynny, nid yw cymorth o dan y cynllun Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau yn cael ei gyfyngu i’r posibilrwydd hwn, ond gall hefyd ysgogi cefnogaeth i entrepreneuriaeth yn economi’r farchnad.

Ymchwil a datblygu

16. Gellir darparu cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu trwy gyfrwng grant neu gymhelliant treth. Awgrymwyd yn adroddiad PWC y dylid gwella rhaglenni SMART Wales Llywodraeth y Cynulliad ac y dylid mynd ar drywydd gwelliannau rhanbarthol i’r Credyd Treth Ymchwil a Datblygu.

17. Yr oedd adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Gymorth Menter hefyd yn ymdrin â chymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu. Fel y nodwyd yn y papur a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, bydd y rhaglenni SMART Wales sy’n darparu cymorth grant ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn cael eu hailwampio a’u cynnwys yn rhaglenni cefnogi arloesi Awdurdod Datblygu Cymru o fis Ebrill 2003 ymlaen.

18. Mae’r Credyd Treth Ymchwil a Datblygu a oedd yn cael ei drafod yn 2000 wedi’i gyflwyno, serch hynny, heb unrhyw amrywiadau o’r naill ranbarth i’r llall. Yn ei Adroddiad cyn y Gyllideb, cyhoeddodd y Canghellor y byddai ymgynghori ynghylch gwella’r credyd hwn, ac mae’r broses ymgynghori hon ar droed. Ond nid yw cynigion newydd y Trysorlys yn cynnwys unrhyw amrywiadau o’r naill ranbarth i’r llall. Serch hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i fynd ar drywydd y maes hanfodol hwn. Ar ôl yr Adroddiad cyn y Gyllideb, yr wyf wedi ysgrifennu eto at y Canghellor yn ei annog i ailystyried y posibilrwydd hwn ac yn awgrymu sut y gellid osgoi problem "gollwng".

Sgiliau

19. Yr oedd adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen hefyd yn ymdrin â chefnogaeth i ddatblygu sgiliau. Fel y nodwyd yn y papur a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, bydd ELWa yn cynnig cymorth i gwmnïau ar gyfer hyfforddiant, a bydd cwmnïau sy’n chwilio am gymorth buddsoddi yn cael eu cyfeirio at ELWa er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i ddefnyddio’r buddsoddiad yn y ffordd orau bosibl. Er y bydd cymorth ELWa yn bwysig, ac y bydd y cysylltiad amlwg â chymorth buddsoddi, gobeithio, yn ennyn cefnogaeth y gymuned fusnes, mae’n amlwg o’r ymchwil a gynhaliwyd gennym ni ac ar draws y DU bod busnesau bach a chanolig, yn enwedig y cwmnïau lleiaf un, yn cynnig rhy ychydig o hyfforddiant o lawer. Felly, mae ffordd bell i fynd cyn i ni sicrhau amgylchedd lle mae datblygu’r gweithlu yn rhan gyffredin o fywyd busnes ar bob lefel.

20. Mewn adroddiad gan yr Uned Perfformiad ac Arloesedd, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â’r Adroddiad cyn y Gyllideb, dadansoddwyd y farchnad ar gyfer datblygu’r gweithlu yn fanwl iawn. Prif fyrdwn argymhellion yr adroddiad oedd y byddai’r broses o ddatblygu’r gweithlu yn dibynnu ar y galw, a bod angen ymdrechion ar ran y Llywodraeth, cyflogwyr ac unigolion. Er mwyn ysgogi galw o du cwmnïau mewn ffordd na fyddai’n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddefnyddio un math o gynnyrch penodol neu’i gilydd, gwyntyllwyd y syniad o ddarparu credydau treth. Yn Adroddiad y Canghellor cyn y Gyllideb, nodwyd y byddai mwy o waith yn cael ei wneud ar hyn.

21. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu hyn yn fawr. Mae’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a minnau wedi ysgrifennu at y gweinidogion sy’n cyfateb i ni yn Llywodraeth y DU i’w hannog i ddefnyddio mesurau cyllidol i gefnogi hyfforddiant. Gallai’r hyn yr ydym yn ei awgrymu er mwyn osgoi "gollwng" gael ei ddefnyddio yng nghyd-destun hyfforddiant yn ogystal ag mewn perthynas ag Ymchwil a Datblygu.

**Awgrymiadau nad ydym yn mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd**

22. Yr oedd adroddiad PWC hefyd yn awgrymu y gellid gostwng cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr er mwyn gostwng costau cyflogi. Ond byddai’r ddwy broblem a nodir ym mharagraffau 5 a 6 uchod yn codi gyda mesur o’r fath, hyd yn oed o’i gyfyngu i weithwyr

ychwanegol. O safbwynt y Comisiwn, byddai gostyngiad cyffredinol yng nghostau Yswiriant Gwladol yn y Gorllewin a'r Cymoedd yn mynd yn bellach nag sydd ei angen er mwyn datrys problemau penodol yn yr ardal. O safbwynt y Trysorlys, byddai costau 'pwysau marw' mesur o'r fath yn annerbyniol o uchel, gan fod nifer mawr iawn o swyddi newydd yn cael eu creu bob blwyddyn heb y cymhelliant. Ar ôl trafodaethau rhagarweiniol gyda'r Trysorlys, mae'n annhebygol y byddwn yn gallu dwyn y maen i'r wal yn achos y cynnig hwn.

23. Mae cymhelliant treth i annog cwmnïau telathrebu i ddarparu seilwaith TGCh band llydan mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yn y Gorllewin a'r Cymoedd wedi'i ystyried hefyd. Ym marn y Trysorlys, mae'r farchnad ar gyfer y math hwn o seilwaith yn rhy newydd i farnu a oes unrhyw fethiant yn y farchnad. Er ein bod yn gryf o'r farn y gallai llawer o ardaloedd tenau eu poblogaeth fod ar eu colled o ran seilwaith band llydan, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn yn codi o'n trafodaethau â'r diwydiant i ganuiatáu i ni ddadlau'n groes i farn y Trysorlys. Byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad hon, a dichon y byddwn yn dod yn ôl at y mater os yw'r amgylchiadau'n newid o gwbl.

24. Yn y cyfamser, polisi Llywodraeth y Cynulliad yw sefydlu Cynllun Gweithredu cydlynus i fynd i'r afael â mesurau sy'n ymwneud â chyflenwi a galw. Awdurdod Datblygu Cymru sy'n paratoi'r Cynllun Gweithredu hwn, a disgwylir iddo fod yn barod yn ddiweddarach y mis hwn. Rhan allweddol o hyn yw canolbwyntio ar greu cymhellion gwell ar gyfer datblygu seilwaith trwy gydgrynhoi galw gan y sector cyhoeddus a thargedu gwariant gan y sector cyhoeddus. Dylai cydgrynhoi gwariant y sector cyhoeddus (ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau iechyd etc) mewn ardal olygu ei bod yn fwy dichonadwy i gyflenwyr ddarparu gwasanaethau capasiti uchel sydd wedyn ar gael i ddefnyddwyr eraill. Bydd y Cynllun hefyd yn ystyried sut i ddefnyddio cymorthdaliadau mewn ffordd briodol er mwyn helpu i ysgogi'r agweddau galw a chyflenwi ar wasanaethau band llydan yng Nghymru.

**Crynodeb**

25. Mae'r Cymhorthion Gweithredu neu'r Amrywiadau Cyllidol y cytunwyd arnynt hyd yn hyn fel a ganlyn:

- Gwella'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig;
- Eithrio rhag talu Treth Stamp ar eiddo sy'n werth hyd at £150,000 mewn sawl ran o Gymru;
- Rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer rhoi cymorth ariannol i fusnesau i'w had-drefnu o fis Ebrill 2002 ymlaen;
- Cynllun Rhyddhad Cyfraddau Llog Cyllid Cymru i gydredeg â chronfa fenthyciadau Amcan 1;
- ELWa i ddarparu cymorth ar gyfer hyfforddiant mewn cwmnïau o fis Ebrill 2002 ymlaen.

Mae'r cynlluniau y cytunwyd arnynt eisoes ond sy'n dal i gael eu datblygu fel a ganlyn:

- Cytunwyd ar Gredyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf;
- Rhaglenni SMART Wales i'w gwella o fis Ebrill 2003 ymlaen.

Mae'r mesurau na chytunwyd arnynt eisoes, ond y mae Llywodraeth y Cynulliad neu Lywodraeth y DU yn mynd ar eu trywydd, fel a ganlyn:

- Cynllun i ostwng Ardrethi Busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru – y broses ymgynghori i ddechrau ym mis Mawrth 2002;
- Gwelliannau i'r eithriadau rhag talu Treth Stamp gan ehangu'r cynllun i gynnwys pob adeilad busnes yn yr ardaloedd difreintiedig dynodedig;
- Cwmnïau Adfywio Trefol;
- Gwelliannau rhanbarthol i Gredydau Treth Ymchwil a Datblygu;
- Credyd Treth rhanbarthol ar gyfer hyfforddiant mewn cwmnïau.

Mae'r mesurau nad ydym yn mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- Cymorth Rhent Awdurdod Datblygu Cymru;
- Gostyngiadau mewn Yswiriant Gwladol ar gyfer gweithwyr ychwanegol;
- Cymhelliant treth i ysgogi seilwaith band llydan.

26. Byddaf yn rhoi manylion y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i'r Pwyllgor unwaith y byddant ar eu gwedd derfynol. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau pellach hefyd ar faterion yr ydym yn dal i edrych arnynt.

**Rhodri Morgan**
**Prif Weinidog y Cynulliad**
**Ionawr 2002**